**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**26 Chwefror 2020**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Calendr Cyfarfodydd |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Gwneud cais i'r Cyd-bwyllgor gytuno ar raglen cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod.

**2.0 Cefndir**

2.1 Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Cytunir ar leoliad y cyfarfodydd gan y Cyd-bwyllgor.

2.2 Yn Atodiad 1, cynigir amserlen cyfarfodydd (drafft) i'w mabwysiadu.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Cynigir y bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor:

4.1.1 Gymeradwyo'r calendr cyfarfodydd fel y'u cynigir yn Atodiad 1.

4.1.2 Rhoi awdurdod i'r Cadeirydd wneud newidiadau i'r calendr os oes angen.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghorwyd â chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru er mwyn osgoi unrhyw gyd-daro â chyfarfodydd Cyngor.

**9.0 Atodiadau**

Atodiad 1: Cyfarfodydd arfaethedig Cyd-bwyllgor GwE 2020/2021.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae dyddiadau arfaethedig cyfarfodydd Cydbwyllgor GwE, fel y'u cynigir yma, yn addas i bwrpas. Yn benodol, bydd 15 Gorffennaf 2020 yn amserol ar gyfer derbyn cyfrifon cyn-archwiliad 2019/20, tra bydd 15 Medi 2020 yn amserol ar gyfer derbyn a chymeradwyo adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar gyfrifon 2019/20, sy'n ofyniad statudol gorfodol erbyn y 15$^{fed}$ o Fedi.

**Atodiad 1:**

**Cyfarfodydd arfaethedig diwygiedig Cyd-bwyllgor GwE 2020/2021**

| **CYFARFOD** | **DYDDIAD** | **AMSER** | **LLEOLIAD** |
|---|---|---|---|
| Cyd-Bwyllgor GwE | 15/07/2020 | 1.30 y.p | Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 15/09/2020 | 10.30 y.b | Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 11/11/2020 | 10.30 y.b | Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 24/02/2021 | 10.30 y.b | Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| Cyd-Bwyllgor GwE | 26/05/2021 | 10.30 y.b | Swyddfeydd GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |